| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 1 MAWRTH 2012 |
| **TEITL** | STRATEGAETH ASEDAU 2009/10 – 2018/19 |
| **PWRPAS** | Mabwysiadu'r strategaeth asedau diwygiedig |
| **AWDUR** | Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Stephen Churchman |

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn yr Hydref 2009, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o anghenion gwario cyfalaf y Cyngor a'i blethu gydag asesiad o'r adnodd oedd yn debygol o fod ar gael i ni, fe fabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Asedau cynhwysfawr a hwnnw yw sail ein rhaglen gyfalaf o flwyddyn i flwyddyn.

1.2 Yn dilyn nifer o newidiadau yn yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael ynghyd a datblygiadau a fu mewn aml i faes gwasanaeth bu'n rhaid adolygu'r strategaeth, ac yn yr Hydref y llynedd bu gweithgor o'r Prif Bwyllgor Craffu yn edrych ar y mater gan wneud argymhellion i'r pwyllgor hwnnw.

1.3 Yn ei dro bu i'r Pwyllgor hwnnw wneud argymhellion i Fwrdd y Cyngor, ac yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr bu i'r Bwrdd benderfynu argymell i'r Cyngor llawn addasu'r Strategaeth Asedau i:-

(a) gydnabod y parheir i gyflawni'r Strategaeth Asedau wreiddiol er gwaethaf y gostyngiad yn y cymorth ar gyfer benthyca yn y setliad;

(b) gydnabod yr angen i gynnwys ac i fenthyca cyfraniad y Cyngor at y cynlluniau ysgolion 21ain ganrif y gwnaed cais am grant ar eu cyfer, ond gan nodi mai dim ond y cynlluniau hynny y bu i ni dderbyn cymeradwyaeth amdanynt y byddwn yn eu cynnwys yn y gyllideb refeniw ar hyn o bryd;

(c) ddarparu ar gyfer uchafswm o £15m ar gyfer cynlluniau yn y maes gofal;

(ch) y dylid cadw golwg allan a manteisio ar unrhyw gyfle sy'n cyflwyno ei hun i ychwanegu at yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael er mwyn lleihau'r gofyn benthyca i gefnogi'r Strategaeth Asedau ddiwygiedig

1.4 Gellir gweld copi o'r adroddiad llawn a gyflwynwyd i'r Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd ar safle we'r Cyngor yn y cyfeiriad isod.

http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2011/Bwrdd%20y%20Cyngor/2011-12-13/cymraeg/07_01_Strategaeth%20Asedau.pdf

1.5 Yn y cyfamser gan mai'r Cyngor sy'n cymeradwyo'r Strategaeth Asedau, fe ymgorfforwyd yr argymhellion uchod yn y strategaeth ei hun ac fe roddir copi o'r strategaeth ddiwygiedig yn yr atodiad.

1.6 Er mwyn hyrwyddo gallu'r Aelodau i adnabod y newidiadau fe nodir yr elfennau sydd wedi newid yn y blociau llwyd.

1.7 Yn unol ag argymhelliad y Bwrdd gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu;'r strategaeth ddiwygiedig, sy'n adlewyrchu penderfyniadau'r Bwrdd a nodir uchod.